



Cefnogi Atal Troseddau Cylllyl ymysg yr Ieuenctid yng Nghaerdydd

Adnodd i Weithwyr Proffesiynol sy'n Gweithio gyda Phobl Ifanc

SUT GALL HAWLIAU PLANT HELPU I GADW PLANT A PHOBL IFANC YN DDIOGEL

Prif nod Hawliau Plant yw helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu i'w llawn botensial a thyfu i fod yn oedolion cyfrifol, iach a hapus. Mae cadw plant yn ddiogel yn rhan bwysig o hyn.

Gall Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) gynnig rhan o'r ateb, drwy gynnig fframwaith ar gyfer deall hawliau plant, a thrwy nodi'r cyfrifoldebau sydd arnym dros blant a phobl ifanc.

Drwy feithrein perthnasau gyda phlant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar barch, tegwch ac ymddiriedaeth, maent yn fwy tebygol o'ch gweld chi fel rhywun y gallent droi atoch os oes problem.

Mae hawliau plant yn helpu i gadw plant yn ddiogel drwy annog plant a phobl ifanc i:

- Siarad ag oedolion a dweud beth maent yn feddwl, teimlo a chredu – rhoi gwybod i chi beth sy'n digwydd yn eu bywydau.
- Deall sut dylent drin pobl eraill, a sut ddylai pobl eraill eu trin nhw.
- Tyfu o ran hyder a bod y person gorau posibl.

Mae hawliau plant yn annog ymarferwyr i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy:

- Weithio tuag at yr hyn sydd orau i'r plant (darparu gwasanaethau, amddiffyn plant ac annog cyfranogiad plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau)
- Gwrando ar blant, ceisio deall eu meddyliau, teimladau a chredoau – a dangos i blant bod eu barn yn bwysig
- Siarad â phlant – egluro ein camau gweithredu a'n penderfyniadau fel bod plant yn gallu ceisio ein deall ni
- Rhoi gofal iechyd, addysg a chyfleoedd eraill i blant i ddatblygu a thyfu





Gwybodaeth gan Heddlu De Cymru

KNIFE CRIME

Gall digwyddiadau'n cynnwys cyllyll fod â chanlyniadau trasig. Nid yw troseddau cyllyll yn rhan o fywyd bob dydd yn ne Cymru, ond rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw cymryd camau i atal problem rhag digwydd.

Byddwch yn ymwybodol o'r gyfraith! Gallwch chi fod yn torri'r gyfraith heb sylweddoli.

Mae'n anghyfreithlon:

- gwerthu cyllell i unrhyw un o dan 18 oed, oni bai bod ganddi lafn sy'n plygu ac nid mwy na 3 modfedd (7.62cm) neu lai
- cario cyllell yn gyhoeddus heb reswm da, oni bai bod y lafn yn plygu a'i hymyl finiog nid mwy na 3 modfedd o hyd
- cario, prynu neu werthu unrhyw fath o gyllell sydd wedi'i gwahardd
- defnyddio unrhyw gyllell mewn modd bygythiol (hyd yn oed cyllell gyfreithlon)

Mae unrhyw offer miniog a ddefnyddir mewn ffordd fygythiol (e.e. sgridreifer) hefyd yn arf bygythiol.

Mae gan swyddogion yr heddlu hawl i stopio a chwilio unrhyw berson neu gerbyd os ydynt yn amau trosedd, gan gynnwys meddiannu arf bygythiol.

Gall risg bod rhywun yr ydych yn ei adnabod yn cario cyllell, y gallai troseddau cyllell effeithio ar rywun rydych yn ei adnabod beri llawer o bryder a chodi nifer o gwestiynau.

Gallwch hefyd adrodd am unrhyw beth yr ydych yn ei wybod am droseddau cyllyll yn hollol anhysbys drwy **Fearless**.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar Feddiant Arfau, gan gynnwys cyllyll yn www.south-wales.police.uk/cy/cyngor/meddiant-arfau/



CYNGOR I RIENI

Y ffordd orau i gadw pobl ifanc yn ddiogel yw i siarad â nhw am y perygl.

Gall siarad fod yn anodd, ond daliwch ati. Mae'n bosibl y bydd ar eich mab neu ferch ofn neu y bydd yn anfodlon siarad. Efallai eu bod nhw'n meddwl bod angen iddynt gario cylllell gan eu bod nhw'n teimlo dan fygythiad.

Edrychwch allan am:

- broblemau yn yr ysgol neu amharodrwydd i fynd i'r ysgol
- problemau bwlio neu pobl yn dwyn eu heitemau personol
- rhwydwaith ffrindiau newydd

Mae'n bosibl eich bod chi'n amau bod eich mab neu ferch yn cario cylllell. Er enghraifft, efallai y byddwch yn sylweddoli bod cylllell ar goll o'r gegin.



CYNGOR I FYFYRWYR

Mae cario cylllell yn anghyfreithlon hyd yn oed os yw er mwyn amddiffyn eich hun. Gall yr heddlu, ac athrawon yn yr ysgol, chwilio unrhyw un y mae amheuaeth ei fod yn cario cylllell.

Drwy gario cylllell, gallwch gael cofnod troseddol neu hyd yn oed dedfryd yn y carchar. Bydd hyn yn cael effaith ar gyfleoedd swyddi i'r dyfodol ac ar eich gallu i deithio tramor i rai gwledydd.

Gall cario cylllell gynyddu'n sylweddol y risg y cewch eich anafu. Mae'n bosibl y bydd eich cylllell eich hun yn cael ei defnyddio yn eich erbyn, neu gall rhywun ymosod arnoch i 'amddiffyn ei hun'.

Sut byddech chi'n teimlo pe byddai eich brawd neu chwaer fach yn cario cylllell ar ôl eich eich gweld chi'n gwneud yr un peth, a rhywbeth yn digwydd iddyn nhw o ganlyniad?

Gall defnyddio cylllell, hyd yn oed i amddiffyn eich hun, ddinistrio eich bywyd chi a bywyd rhywun arall. Gall bod yno pan fo rhywun yn defnyddio cylllell achosi trafferth i chi.

Cerddwch i ffwrdd os yw rhywun yn bygwth trais.

Dwedwch wrth rywun yr ydych yn ymddiried ynddo – rhiant, athro, ffrind neu'r heddlu.

Gallwch hefyd adrodd am unrhyw beth yr ydych yn ei wybod am droseddau cylllell yn hollol ddienw drwy **Fearless**.

www.fearless.org



Cefnogi Atal Troseddau Cylllyll yng Nghaerdydd

Mae'r sefydliadau canlynol wedi bod yn rhan o 'weithgor troseddau cylllyll ieuenctid Caerdydd'. Cafodd y grŵp ei sefydlu i egluro'r gefnogaeth yng Nghaerdydd ynghyd ag edrych ar y bylchau. Mae'r holl raglenni wedi derbyn sicrwydd ansawdd gan aelodau'r grŵp ac yn cytuno ar yr un neges gyson, y Gyfraith a llwybrau adrodd.



Doctoriaid Stryd

Elusen genedlaethol sy'n dysgu sgiliau achub bywyd brys i bobl ifanc. Pwrpas eu haddysgu yw helpu pobl ifanc i gysylltu ymddygiad sy'n peri risg i sefyllfaoedd bywyd go iawn o drais, a chanlyniadau meddygol anafiadau yn sgil trais. Mae'r sesiynau'n ymarferol, gan ddefnyddio propiau meddygol ac anogir pobl ifanc i ymarfer y sgiliau. Ynghyd â chynnig sgiliau allweddol iddynt, gyda'r gobaith o rymuso pobl ifanc i wneud gwahaniaeth bositif yn eu cymuned, gan roi synnwyr o gyfrifoldeb cymdeithasol a chreu newid parhaus i'w hagwedd tuag at droseddau treisgar. Mae'r holl addysgu'n cael ei gynnig gan fyfyrwyr meddygol neu ddoctoriaid cymwys.

Maent yn cynnig 2 sesiwn addysg wahanol: 'beth i'w wneud pan fo rhywun yn gwaedu' a 'beth i'w wneud pan fo rhywun yn anymwybodol'. Maent yn para oddeutu awr.

Ar gyfer pwy mae'r sesiynau hyn?

Pobl ifanc 11+ oed

Manylion cyswllt i atgyfeirio

info@streetdoctors.org

www.streetdoctors.org



Academi'r Cyfryngau Caerdydd – Dewisiadau Dewr

Project Ymwybyddiaeth Troseddau Cylllyll.

Mae ACC yn cynnig sesiynau dosbarth 60 munud neu sesiynau gwasanaeth 30 munud. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar y gyfraith a ffeithiau, gangiau a dinasyddiaeth, pethau da a phethau drwg, targedau a gwerthoedd, cymryd persbectif ac empathi. O brofiad, mae'n well i bobl ifanc gael dealltwriaeth o'r gyfraith a'r ffeithiau cyn unrhyw sesiynau eraill.

Ar gyfer pwy mae'r sesiynau hyn? -

Pobl ifanc 11-18 oed

Manylion cyswllt ar gyfer atgyfeirio -

scott@mediaacademycardiff.org

07533154010



Fearless – Crimestoppers

Mae Fearless yn cynnig hyfforddiant am ddim i weithwyr proffesiynol a gweithdai i bobl ifanc

- Mae'r gweithdai ar gyfer pobl ifanc rhwng 11-16 oed (er y gallwn weithio gyda disgyblion ychydig yn iau neu'n hŷn) ac yn benodol pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu allgau neu feysydd perygl adnabyddus. Mae'r gweithdai'n canolbwyntio ar y dewisiadau a'r canlyniadau ynghylch troseddau a chynyddu ymwybyddiaeth o Fearless.org lle gall pobl ifanc adrodd am droseddau'n hollol ddienw.
- Mae'r sesiynau hyfforddiant i weithwyr proffesiynol yn para rhwng awr a dwyawr. Bydd cyfranogwyr yn gadael y sesiwn gyda dealltwriaeth dda am Crimestoppers a'i wasanaeth ieuenctid, Fearless, a beth mae'n ei gynnig i bobl ifanc.

Manylion cyswllt ar gyfer atgyfeirio

Khalifa Alaale

07834789016

Khalifa.Alaale@crimestoppers-uk.org

www.fearless.org/cy

Unrhyw wybodaeth arall

Rydym yn cynnig rhaglenni'n rhan o Raglen Atal Trais Ddifrifol Cymru Gyfan, felly yn ogystal â throseddau cyllyll rydym hefyd yn hwyluso gweithdai ar gangiau, llinellau cyffuriau ac ecsbloetio. Gall gweithdai bara oddeutu awr ond gellir eu cyflwyno i gyd-fynd ag anghenion y gynulleidfa, felly mae modd amrywio'r amser.

Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd

Mae Uwch Swyddogion Ieuenctid (USI)

Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd wedi datblygu gweithdy Ymwybyddiaeth Troseddau Cyllyll gyda chefnogaeth Cyngor Ieuenctid Caerdydd.

Maent yn cynnig sesiwn unigryw mewn ysgolion ar atal troseddau cyllyll. Byddant yn ystyried peryglon cario cyllell, canfyddiadau yng Nghaerdydd, adrodd, sut i aros yn ddiogel a mwy.

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd yn cefnogi pobl ifanc ar atal troseddau cyllyll Ieuenctid drwy'r ddwy elfen ar ei ddarpariaeth gwasanaeth: Cynnig ac Ymgysylltiad Ieuenctid (canolfannau ieuenctid, gwaith ieuenctid ar y stryd a darpariaeth gynhwysfawr) ac Atal ac Ymyrryd yn Gynnar (mentoriaid ieuenctid 1:1, gwaith grŵp wedi'i dargedu ac ymgysylltiad ôl-16 – drwy Broiect Ieuenctid Canol y Ddinas)

Mae'r canolfannau ieuenctid canlynol yn rhoi ystod eang o weithgareddau, canllawiau, cefnogaeth a gwybodaeth i bobl ifanc ar droseddau cyllyll a llawer o bynciau eraill.

- Pafliwn Butetown
- Canolfan Ieuenctid Eastmoors
- Y Pwerdy - Llanedern
- Canolfan Ieuenctid Gogledd Trelái
- Canolfan Ieuenctid Llanelwyr

Ar gyfer pwy mae'r sesiynau hyn?

Pobl ifanc 10-17 oed

Cysylltwch â'ch gweithiwr ieuenctid lleol i gael rhagor o wybodaeth

Facebook: @cardiffyouthservice

Twitter: @cardiffyc

youthservice@caerdydd.gov.uk





Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu – School Beat

Mae SchoolBeat.cymru yn wefan ddwyieithog sy'n rhan o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, sy'n rhoi gwybodaeth ac adnoddau i ddisgyblion, athrawon, rhieni a phartneriaid i atgyfnerthu prif negeseuon ein Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal â lleoliadau addysgol amgen.

Rydym yn cynnig mewnbwn gwasanaeth ar fod yn Ddi-gylllyll a gwers yn y dosbarth ar Arfau a'r gyfraith. Mae'n cynnwys yr amcanion canlynol -

- deall y gyfraith ynghylch arfau
- codi ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â chylllyll ac arfau
- ystyried sut i gadw disgyblion yn ddiogel ar eiddo ysgol
- datblygu agwedd gyfrifol ynghylch diogelwch personol

Ar gyfer pwy mae'r sesiynau hyn?

Mae'r mewnbwn gwasanaeth ar gael i CA3/4

Gwers dosbarth ar gyfer CA3

Mae plismona cefnogol ar y thema hon ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd

Manylion cyswllt i atgyfeirio

www.schoolbeat.cymru – tudalen cysylltu â ni
Catherine.lewis@south-wales.pnn.police.uk
Eich Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu



Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Caerdydd – Tîm Atal

Mae'r tîm atal yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cynnig cefnogaeth 1:1 i bobl ifanc a'u teuluoedd. Nod y bartneriaeth yw atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc 10-17 oed.

Mae'r tîm atal yn cynnig rhaglen ymwybyddiaeth arfau ar sail un-i-un gyda phobl ifanc sy'n gysylltiedig â neu mewn perygl o fod yn gysylltiedig â digwyddiadau arfau.

Ar gyfer pwy mae'r sesiynau hyn?

Pobl ifanc 10-17 oed

Manylion cyswllt i atgyfeirio

yosprevention@caerdydd.gov.uk



Ymddiriedolaeth St Giles

Cymorth 1:1 arbenigol a dwys i bobl ifanc y mae trais â gangiau ac ecsbloetio yn effeithio arnynt. Rydym hefyd yn atal pobl ifanc sydd mewn perygl o fod ynghlwm wrth gangiau a throseddau.

Ar gyfer pwy mae'r sesiynau hyn?

Pobl ifanc rhwng 10-19 oed sydd ynghlwm wrth neu sydd mewn perygl o fod ynghlwm wrth linellau cyffuriau.

Manylion cyswllt ar gyfer atgyfeirio

Rebecca.Miller@stgilestrust.org.uk
www.stgilestrust.org.uk



Street Games

Mae Street Games yn sefydliad chwaraeon a gwrth-dlodi cenedlaethol. Rydym yn cefnogi sefydliadau cymunedol a leolir yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, i ddylunio a darparu cyfleoedd chwaraeon deniadol i bobl ifanc lleol. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi oddeutu 10 o ddarpariaethau cymunedol ledled y ddinas ac mae gennym gysylltiadau â llawer o rai eraill sydd â chynnig deniadol i bobl ifanc.

Ar gyfer pwy mae'r sesiynau hyn?

Nid yw'r cynnig yn gyfyngedig i unrhyw fath penodol o sefydliad. Gall ymgysylltiad gan bob sector fod yn bwysig o ran sicrhau bod swyddogion lleol yn bodloni anghenion lleol ac yn sicrhau gall wella darpariaeth leol.

Manylion cyswllt ar gyfer atgyfeirio

Aaron Northmore –
aaron.northmore@streetgames.org –
079 5605 7386

www.streetgames.org



CYSYTLIADAU DEFNYDDIOL ERAILL

Rhifau ffôn defnyddiol

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd - 03000 133 133

Switched On - 029 2233 0292

Os nad yw'n frys - 101

Crimestoppers - 0800 555 111

Cymorth i Ddioddefwyr - 030 0303 0161

Diogelu Dy Hun! - 029 2053 6310

Gwefannau

www.knifefree.co.uk

www.noknivesbetterlives.com

www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/crime-law/gun-knife-crime/

www.fearless.org/cy

www.stgilestrust.org.uk

www.streetgames.org

www.south-wales.police.uk/cy/cyngor/meddiant-arfau/

I gael rhagor o gymorth, cynlluniau sesiwn a chefnogaeth cysylltwch â:

Dinas sy'n Dda i Blant - CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

